ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) Bwletin #6 – Hydref 2019

7 Hydref 2019
Fersiwn: CBGY/06/2019

Mae'r bwletin hwn a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran CBGY.

Amserlen CBGY 2019:

Cytunwyd yng nghyfarfod diweddaraf y Fforwm Datblygu Meddalwedd (SDF) i edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno data Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau cyn y data Ysgol cael eu cyflwyno, i alluogi'r data Ysgol gael ei groes-ddilysu yn erbyn data'r awdurdod lleol a lleihau'r nifer o wallau dilysu a godir.

Bydd angen ail-lanlwytho'r data Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau unwaith mae pob ysgol wedi cyflwyno eu data, er mwyn ail-redeg a diweddaru'r dilysiadau.

- **Dyddiad cyfrifiad:** Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2019
- **Ffenestr cyflwyno data Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau:** 5ed – 15fed Tachwedd
- **Ffenestr cyflwyno data Ysgol:** 18fed Tachwedd – 18fed Rhagfyr
- **Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r data:** Dydd Mercher 18 Rhagfyr

Bydd pob awdurdod lleol yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno datganiadau ysgol. Holwch eich awdurdod lleol erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno eich datganiad.

Gofyniadau ar ysgolion wedi'u heithrio o gytundebau lefel gwasanaeth gyda'u hawdurdod lleol:

Bydd angen i ysgolion sydd wedi'u heithrio o gytundebau lefel gwasanaeth gyda'u hawdurdod lleol gyflwyno'r data Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau eu hun ynghyd â'r data Ysgol, a dylid darllen y ddau set o nodiadau cwblhau technegol i nodi'r holl wybodaeth sydd angen eu cyflwyno.

Byddwn yn creu cyfrifon DEWi ychwanegol i alluogi cyflwyno'r data. Os oes angen taenlen wrth gefn ar yr ysgol i gofnodi'r data, cysylltwch â ni ar IMS@llyw.cymru.

Rydym yn cysylltu ag ysgolion sudd wedi'u heithrio un unigol er mwyn trafod y broses ac unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

Contacts

Ysgolion:
Os oes gan ysgolion unrhyw gwestiynau am CBGY, dylent gysylltu â swyddog cyswllt System Rheoli Gwybodaeth eu hawdurdod lleol gyntaf.

Awdurdodau Lleol:
Ar gyfer cwestiynau gan awdurdodau lleol am y bwletin hwn neu am CBGY yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn:
Tîm System Rheoli Gwybodaeth
Ffôn: 03000 625014
IMS@llyw.cymru

Tîm ystadegau gweithlu ysgolion
Ffôn: 03000 625105
Ffôn (Cymraeg): 03000 255968
CBGY.SWAC@llyw.cymru

Yn y bwletin hwn:

- Amserlen CBGY 2019
- Gofyniadau ar ysgolion wedi'u heithrio
- Sbotolau ar: Modiwl Cyflogau a Chontractau
- Adnoddau a datblygiadau
- Digwyddiadau ymgysylltu

Sbotolau ar: Modiwl Cyflogau a Chontractau

Ym mhob bwletin byddwn yn edrych ar elfennau o'r cyfrifiad mewn mwy o fanylder.

Yn y mwyafrif o achosion, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am ddychwelyd y data Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau sydd yn cynnwys y modiwl Cyflogau a chontractau.

Mae'r modiwl yn rhoi manylion am gontract pob unigolyn sy'n gymwys ar gyfer y cyfrifiad, gan gynnwys gwybodaeth am y math o gontract, swydd, cyflog a thaliadau ychwanegol.

Dylir gynnwys pob aelod o staff sydd â chontract agored o leiaf 1 mis, ac aelodau o staff â chontract wedi gorffen rhwng 5ed Tachwedd o'r flwyddyn flaenorol a dyddiad cyfrifiad y flwyddyn gyfredol.

Mae'r eitemau data canlynol wedi'u cynnwys yn y modiwl Cyflogau a chontractau:

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Data Enghreifftiol
Math o gontract/cytundeb	3	Alffaniwmerig	PRM
Dyddiad dechrau	10	Dyddiad	2012-04-01
Dyddiad diwedd	10	Dyddiad	2019-02-02
Rheswm dros adael	3	Alffaniwmerig	VOR
Swydd	3	Alffaniwmerig	TAS
AALl	3	Alffaniwmerig	660
Rhif yr ysgol	4	Alffaniwmerig	4099
Cyfradd ddyddiol	1	Alffaniwmerig	N
Ystod cyflog	2	Alffaniwmerig	TU
Lefel	2	Alffaniwmerig	3
Cyflog sylfaenol	10	Alffaniwmerig	35000.00
Cyflog a warchodir	1	Boole	0
Math o daliad ychwanegol	3	Alffaniwmerig	TL3
Swm taliad ychwanegol	10	Alffaniwmerig	2500.00
Dyddiad dechrau taliad ychwanegol	10	Dyddiad	2019-10-12
Dyddiad diwedd taliad ychwanegol	10	Dyddiad	2020-01-31
Oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos	5	Alffaniwmerig	32.5
Oriau cyfwerth ag amser llawn bob wythnos	5	Alffaniwmerig	37
Cyfwerth ag amser llawn	4	Alffaniwmerig	0.88
Wythnosau bob blwyddyn	2	Alffaniwmerig	40

Adnoddau a datblygiadau

Gwefan CBGY: Mae pob bwletin nawr ar gael ar ein gwefan CBGY: https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy

Cwestiynau Cyffredin: Rydym wedi cyhoeddi dogfen cwestiynau cyffredin sy'n cynnwys amryw o agweddau'r CBGY. Mae hyn wedi'i seilio ar gwestiynau rydym wedi derbyn gan awdurdodau lleol ac ysgolion a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r nodiadau cwblhau technegol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach peidiwch ag oedi i gysylltu â ni. Mae'r ddogfen cwetiynau cyffredin ar gael ar: https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-cwestiynau-cyffredin

OGL
© Crown copyright January 2019
WG36444

Cam 2 Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) – modylau data 'hanesyddol':

Bydd y modylau 'hanesyddol' yn cael eu cyflwyno yng ngham 2 o'r CBGY ym mis Tachwedd 2020. Mae'r rhain yn cynnwys y modylau recriwtio, cadw staff a chyflenwi yn y data 'Ysgol' a'r modiwl 'Absenoldebau' yn y data 'Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau'.

Bydd y modylau yma yn cynnwys gwybodaeth am y flwyddyn academaidd flaenorol (h.y. 1af Medi 2019 i 31ain Awst 2020).

Bydd y modylau recriwtio a chadw staff – sy'n rhan o'r casgliad CBYLD ar hyn o bryd –yn casglu gwybodaeth fwy manwl o'i gymharu ag hynny sy'n cael ei gasglu'n gyfredol (e.e. rôl y swydd wag / unigolyn sydd wedi gadael a pa mor hir mae'r swyddi wedi bod yn wag). Bydd y wybodaeth yn parhau i gael eu casglu fel rhan o'r CBYLD hyd nes bod safon y wybodaeth wedi'u sicrhau.

Mae'r modiwl cyflenwi yn cynnwys gwybodaeth gyfanredol am ddefnydd cyflenwi gan yr ysgol yn y flwyddyn academaidd flaenorol yn ôl categorï (e.e. athro neu gynorthwyydd addysgu), cyflenwi wedi'u gynllunio / heb eu cynllunio, tymor byr / hirdymor ar nifer o ddiwrnodau a chost cyflenwi.

Bydd y modiwl absenoldebau yn casglu gwybodaeth ar lefel unigolyn am bob absenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd pob awdurdod lleol ac ysgol sydd wedi'u heithrio o gytundebau lefel gwasanaeth AD a/neu gyflogres gyda'u hawdurdod lleol dychwelyd y modiwl yma.

Er na fydd y modylau yma'n cael eu casglu nes Tachwedd 2020, annogir ysgolion i gofnodi'r wybodaeth anghenrheidiol wrth iddynt ddigwydd yn barod i gyflwyno'r data yng ngham 2.

Mae gwybodaeth pellach ar y modylau yma ar gael yn y nodiadau cwblhau technegol at https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy.

Digwyddiadau Ymgysylltu

Peilot CBGY: Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y peilot. Rydym wedi derbyn adborth defnyddiol iawn ac yn eu hadolygu i wneud unrhyw ddatblygiadau anghenrheidiol.

Ymgysylltu ag awdurdodau lleol: Rydym wedi cwblhau ein sgyrsiau ag awdurdodau lleol i drafod datblygiadau a helpu ag unrhyw broblemau sydd wedi codi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â'r blychau post CBGY neu IMS er mwyn i ni eich helpu gydag unrhyw ymholiadau. Byddwn yn hapus i drefnu cyfarfod pellach os dymunwch.

Gweithdai hyfforddi: Rydym wedi mynychu gweithdai hyfforddi CBGY a gynhalwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer eu hysgolion. Maent wedi bod yn fodd defnyddiol dros ben Ti drafod unrhyw broblemau ac ateb unrhyw gwestiynau yn uniongyrchol. Os hoffech i ni fynychu unrhyw sesiynau yn y dyfodol cysylltwch â ni ar IMS@llyw.cymru neu CBGY.SWAC@llyw.cymru a byddwn yn ymdrechu i wneud trefniadau i fynychu.

Beth nesaf

Os oes yna unrhyw eitemau hoffech weld mewn bwletinau yn y dyfodol gadewch i ni wybod at: IMS@llyw.cymru neu CBGY.SWAC@llyw.cymru.

OGL
© Crown copyright January 2019
WG36444